



Chofrestryddion Ymarfer Cyffredinol (Diwygio) 2007 a ddaeth i rym 16 Ebrill 2007;”, ac “Ystyr “Cyfarwyddydd” yw Cyfarwyddydd Addysg Ymarfer Cyffredinol Ôl-radd atebol”;

(1) Ar ôl cyfarwydyd 3 o'r Cyfarwyddiadau i Gofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003, rhodder y canlynol—

“4.—(1) Os oedd Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol mewn swydd Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol ar 1 Ebrill 2006 neu wedi hynny, ac yr oedd gan Hyfforddydd Ymarfer Cyffredinol y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol hwnnw hawl ar unrhyw adeg ar y dyddiad hwnnw neu wedi hynny i gael taliad o ran y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol gan Fwrdd Iechyd Lleol yn unol â pharagraff 2 o Atodlen o'r Cyfarwyddiadau hyn, bydd rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw wneud taliad i'r Hyfforddydd Ymarfer Cyffredinol hwnnw a'i gyfrifo'n unol â pharagraff(2).

(2) Mae'r taliad a nodir ym mharagraff (1) yn cynnwys—

(a) y lwfans a gawsai'r Hyfforddydd Ymarfer Cyffredinol o ran y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol rhwng 1 Ebrill 2006 a 15 Ebrill 2007 (am y cyfnod o fewn yr amser hwnnw y bu hawl gan yr Hyfforddydd Ymarfer Cyffredinol i dâl gan y Bwrdd Iechyd Lleol o ran y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol hwnnw'n unol â pharagraff 2 o Atodlen o'r Cyfarwyddiadau hyn) megis pe buasai'r diwygiadau i Atodiad 3 o Atodlen o'r Cyfarwyddiadau hyn a achoswyd gan Gyfarwyddiadau Diwygio 2007 wedi dod i rym ar 1 Ebrill 2006; namyn

(b) yr union lwfans a dalodd y Bwrdd Iechyd Lleol i'r Hyfforddydd Ymarfer Cyffredinol mewn gwirionedd o ran y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol hwnnw yn ystod y cyfnod a nodir yn yr is-baragraff.

(3) Yn yr Atodlen i Gyfarwyddiadau i Gofrestryddion Ymarfer Cyffredinol 2003, yn lle pob cyfeiriad at Atodiad 3 rhodder cyfeiriad at Atodiad 3 o'r Cyfarwyddiadau hyn.

Llofnodwyd gydag awdurdod Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru

Brian Gibbons

Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a  
Gwasanaethau Cymdeithasol

# ATODLEN

## ATODIAD 3 ATODLEN I GYFARWYDDIADAU COFRESTRYDDION YMARFER CYFFREDINOL 2003

### “Atodiad 3

#### TALIADAU O RAN CYNLLUN Y COFRESTRYDDION YMARFER CYFFREDINOL

- (a) Grant Hyfforddiant £7,024.00
- (b) Lwfans am gerbyd modur ychwanegol
- (1) am flwyddyn o hyfforddiant llawn amser £4,598.00
- (2) am 2 flynedd o hyfforddiant rhan amser (am bob blwyddyn) £3,016.30
- (c) **Col A:** Cyflog ysbyty (y swydd ddiwethaf dan y GIG) = a lwfans sylfaenol cyfredol CYC
- Col B:** Lwfans ac atodiadau Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol (“CYC”)
- Col C:** Col A + Col B = cyfanswm y lwfans sy’n daladwy i Gofrestrydd Ymarfer Cyffredinol

		A	B	C	
		£	£	£	
1.	Swyddog Preswyl † (= USP)	25,882	16,824	42,706	*
2.	Blwyddyn 1 <sup>af</sup> USP	25,882	16,824	42,706	*
3.	2 <sup>il</sup> flwyddyn USP	27,617	17,952	45,569	*
4.	3 <sup>ydd</sup> blwyddyn USP	29,352	19,079	48,431	*
5.	4 <sup>ydd</sup> blwyddyn USP	31,087	20,207	51,294	*
6.	5 <sup>ed</sup> blwyddyn USP	32,822	21,335	54,157	*
7.	6 <sup>ed</sup> blwyddyn USP	34,557	22,463	57,020	*
8.	Uchafswm USP	36,292	23,590	59,882	*
9.	Blwyddyn 1af MYA	28,930	18,805	47,735	*
10.	2il flwyddyn MYA	30,395	19,757	50,152	*
11.	3 <sup>ydd</sup> blwyddyn MYA	31,860	20,709	52,569	*
12.	4 <sup>ydd</sup> blwyddyn MYA	33,325	21,662	54,987	*
13.	5 <sup>ed</sup> blwyddyn MYA (Uchafswm Cofrestrydd)‡	35,092	22,810	57,902	*
14.	6 <sup>ed</sup> blwyddyn MYA	36,860	23,959	60,819	*
15.	7 <sup>fed</sup> blwyddyn MYA	38,628	25,109	63,737	*
16.	8 <sup>fed</sup> blwyddyn MYA	40,395	26,257	66,652	*
17.	9 <sup>fed</sup> blwyddyn MYA	42,163	27,406	69,569	*
18.	10 <sup>fed</sup> blwyddyn MYA	43,931	28,556	72,487	#
19.	Meddyg Ymgynghorol	Y cyflog cyfredol am bwynt graddfa’r swydd ddiwethaf yn un o ysbytai’r GIG, ar sail marcio amser			

‡ Mae’r cyngor (PM (81) 30) ar achredu profiad blaenorol mewn Ymarfer Cyffredinol yn cyffelybu profiad o’r fath â graddfa Meddyg Ymgynghorol. Er eglurder dylid nodi bod pwynt uchaf graddfa Meddyg Ymgynghorol yn hafal i Feddyg Ymgynghorol Arbenigol yn ei 5<sup>ed</sup> Blwyddyn.

† Gweler paragraff 2)b)i) Atodlen y Cyfarwyddiadau hyn.

\* Dyddiadau cynyddiadau fel y swydd ddiwethaf mewn ysbyty

# Ar y sail na fydd cynyddiad pellach ar gael

(d) Tanysgrifiad y Cofrestrydd Ymarfer Cyffredinol i gorff amddiffyn proffesiynol. Gweler paragraff 7 o Atodlen y Cyfarwyddiadau hyn.”

